Dogfen ir Cyhoedd

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD BLYNYDDOL
O GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD MAWRTH
15 MAI 2018
am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for the**

**ANNUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**TUESDAY
15 MAY 2018
at 2.00 pm**

**R H A G L E N**

## 1. CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2018/19.

**(Cyfeirir yr Aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir a ddosberthir yn y cyfarfod).**

## 2. IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2018/19.

## 3. CYHOEDDIADAU

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr ac unrhyw sylwadau terfynol am ei gyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd y mae ei dymor yn dod i ben.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

## 5. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD/AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 y Cyfansoddiad, yr Arweinydd i roi gwybod enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys eu cynrchiolwyr Portffolio.

## 6. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2018/19

Ethol Cadeirydd yn ynol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.

## 7. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.5 o'r Cyfansoddiad).

## 8. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 9. PENODI I GYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 10. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AM 2018/19

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-

- 25 Medi, 2018 - 2.00 pm
- 30 Hydref, 2018 (Arbennig) - 2.00 pm
- 11 Rhagfyr, 2018 - 2.00 pm

- 27 Chwefror, 2019 - 2.00 pm
- Mai, 2019 - (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i'w gadarnhau

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd.

**12. CYNLLUN CYNEFINO A DATBLYGU AR GYFER AELODAU 2018/19**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**13. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau canlynol fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Is-Bwyllgor Indemniadau

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAI 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI SYLW I FATER CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

**1.0** Rhaid i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn flynyddol.

**2.0** Nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 y prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

**3.0** O ran Aelodaeth Grwpiau mae'r sefyllfa fel a ganlyn:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plaid Cymru | - | 14 | |
| Llafur Cymru | - | 2 | |
| Y Grŵp Annibynnol | - | 7 | |
| Annibynnwyr Môn | - | 7 | (Yn cynnwys 1 Aelod Democratiaid Rhyddfrydol) |

**4.0** Mae'r Matrics yn yr atodiad yn nodi faint o seddi a ddyrennir i bob grŵp ar Bwyllgorau

**5.0** Cyfanswm nifer y seddau i'w dyrannu yw 113. (Mae'r Pwyllgor Addysg Anghenion Arbennig wedi dod i ben)

**6.0** Yn amlwg, oni bai bod y cyfrifiad yn cyrraedd rhif cyfan o ran cyfanswm cyffredinol y seddau a nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae'n anochel y bydd ffracsiynau.

**7.0** Ni all unrhyw grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun ac ni all ddyrannu sedd i Gynghorydd nad yw'n aelod o'r un grŵp gwleidyddol hwnnw.

**8.0 Argymhellion:-**

(i) Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol priodol a nifer y seddau y gellir eu priodoli i bob un o'r Grwpiau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(ii) Bod Arweinyddion y Grwpiau yn darparu manylion am unrhyw newid o ran aelodaeth Pwyllgorau i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
20/04/18

**Mai 2018**

**May 2018**

| **Balans ar y Cyngor Sir**<br>**Balance on County Council** | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 14 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 2 |
| Y Grwp Annibynnol | 7 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 7 |
| | |
| | 30 |

| **PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**<br>**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES** | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| | *4.6667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *9.33333*<br>10 |
| | *0.6667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *1.33333*<br>2 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.66667*<br>4 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.66667*<br>4 |
| | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *20*<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaeth* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn | |
| Bottom right, normal = whole number suggestion | |



| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | **LLED-FARNWROL**<br>**QUASI-JUDICIAL** | | | | | | | | **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR**<br>**OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYSAG<br>SACRE | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 | 6 | 7 | 6 | 3 | 5 | 93 | 113 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *5.13333*<br>5 | *3.73333*<br>4 | *4.66667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *1.4*<br>1 | *1.4*<br>1 | *4.666667*<br>5 | *5.133333333*<br>5 | *2.8*<br>3 | *3.26667*<br>3 | *2.8*<br>3 | *1.4*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *43.4*<br>43 | *52.7333333*<br>53 |
| Llafur<br>Labour | *0.73333*<br>1 | *0.53333*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.2*<br>0 | *0.666667*<br>1 | *0.733333333*<br>1 | *0.4*<br>1 | *0.46667*<br>0 | *0.4*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.333333*<br>1 | *6.2*<br>8 | *7.53333333*<br>10 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *2.56667*<br>2 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.566666667*<br>2 | *1.4*<br>1 | *1.63333*<br>2 | *1.4*<br>1 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>1 | *21.7*<br>20 | *26.3666667*<br>24 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *2.56667*<br>3 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.566666667*<br>3 | *1.4*<br>1 | *1.63333*<br>2 | *1.4*<br>1 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>1 | *21.7*<br>22 | *26.3666667*<br>26 |
| | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0* | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0* | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *11*<br>11 | *8*<br>8 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *3*<br>3 | *3*<br>3 | *10*<br>10 | *11*<br>11 | *6*<br>6 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *93*<br>93 | *113*<br>113 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAI 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYRFF ALLANOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CADARNHAU APWYNTIADAU I GYRFF ALLANOL AR GYFER 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

**1.0 Cefndir**

Yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.7 (ii) y Cyngor, mae'n ofynnol i'r cyfarfod blynyddol dderbyn a chadarnhau rhestr o aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol sydd ddim yn gorfod bod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad. Mae copi o'r apwyntiadau cyfredol gan y Cyngor ynghlwm i'r adroddiad yma, a bydd angen eu cadarnhau. Mae'r rhain yn apwyntiadau gwahanol i'r apwyntiadau a wneir gan yr Arweinydd.

**2.0 Argymhelliad**

Cytuno a chadarnhau'r apwyntiadau a welir yn y rhestr ynghlwm.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**20/04/18**

# ATODIAD

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU**

**CYNRYCHIOLAETH I'W BENDERFYNU A'I GADARNHAU GAN Y CYNGOR LLAWN**

| **Rhif** | **Teitl** | **Nifer yr Aelodau sydd eu hangen** | **Enwau'r Cynrychiolydd (wyr)** |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf* ***** | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Eric Jones |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | Richard Griffiths, Eric Jones |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | Dylan Rees |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)* ****** | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Glyn Haynes |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | Llinos Medi Huws, Ieuan Williams |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a G.O. Jones |
| 7. | Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd *(Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Aelodau Lleol wardiau Talybolion a Twrcelyn a Dafydd Rhys Thomas |
| 8 | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE | 5 | Richard Dew, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Robin Williams, Eric Jones |
| 9. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru *(Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol er mwyn dilyniant i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)*. ******* | 1 | Dylan Rees |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. | CAB Ynys Môn | 1 | Nicola Roberts |
| 11. | Medrwn Môn *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | Llinos Medi Huws |
| 12. | Grŵp Mynediad Ynys Môn | 1 | R.G. Parry, OBE, FRAgS |
| 13. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 14. | Cwmni Frân Wen *(Sylwedydd)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 15. | Pwyllgor Rheoli CYNNAL *(2 Aelod i gynnwys Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Dafydd Roberts |
| 16. | Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | 1 | Llinos Medi Huws |
| 17. | Panel Maethu | 1 | Richard Griffiths |
| 18. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(hawl i 2 aelod gydag un ohonynt yn Ddeilydd Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | John Griffiths |
| 19. | Partneriaeth Cronfa Ddatblygu Cynaliadwy | 1 | Richard Dew |
| 20. | Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol | 5 | Alun Mummery, Kenneth Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, G.O. Jones |
| 21. | Fforwm Iaith Môn | 1 | Ieuan Williams |

*** Mae gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r penodiadau hyn**
**** Mae'r Rheoliadau yn awr yn caniatáu hyd at 2 aelod heb eu hethol i gynrychioli'r Awdurdod**
***** Mae'r Panel yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Ynys Môn i ddod o Grwp Plaid Cymru**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad:** | **15 Mai 2018** |
| **Teitl yr adroddiad:** | **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Fframwaith ar gyfer Taliadau i Aelodau yn 2018/19** |
| **Adroddiad gan:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd / Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Pennu nifer a lefelau taliadau uwch gyflogau ar gyfer 2018/19** |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.

Mae'r taliadau i aelodau, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig, ar gyfer 2018/19 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Y Panel) yn ei adroddiad blynyddol dyddiedig Chwefror 2018. Gosodir allan y prif newidiadau yn yr adroddiad hwn. Mae angen adrodd i'r Cyngor ar y wybodaeth hon er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog, ynghyd â'r symiau sy'n daladwy i Arweinyddion ac Is-Arweinyddion Dinesig. Mae yna gyllideb mewn lle am 2018/19 ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau.

Mae'r penderfyniadau yn adroddiad Chwefror 2018 yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

## 2.0 Taliadau i aelodau etholedig prif gynghorau

### 2.1 Cyflog sylfaenol

Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd cynnydd o £200 yn lefel y cyflog sylfaenol blynyddol i **£13,600** (sef cynnydd o 1.49%).

### 2.2 Uwch gyflogau

Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau y mae'n eu talu, hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel. O ran y Cyngor hwn, bu i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gydsynio i gynyddu'r nifer o swyddi a gaiff dderbyn uwch gyflog y tu hwnt i'r uchafswm o hanner cant y cant a ganiateir yn y Mesur, yn amodol ar benderfyniad y Panel. Fe gyhoeddodd y Panel

Adroddiad Atodol dyddiedig Rhagfyr 2017 i ddod â'r cynnydd i rym. Felly, mae'r nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn yn **16** ar gyfer 2018/19. Mae'r ffigwr yma'n parhau i gynnwys cyflogau dinesig.

Nid yw'r taliadau uwch gyflogau yn cael eu cynyddu, ond bydd deiliaid uwch gyflog yn derbyn y cynnydd yn y cyflog sylfaenol.

## 2.3 Band 2 – Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith

Mae'r disgresiwn i dalu dwy lefel o daliadau ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wedi ei dynnu'n ôl ac felly dim ond un lefel gyflog fydd ar gael ar gyfer 2018/19. Daw hyn o ganlyniad i sylwadau cryf a fynegwyd yn ystod ymweliadau'r Panel i gynghorau, y dylai'r Panel fod yn yn rhagnodol o ran cyflogau Aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

## 2.4 Band 3 – Cadeiryddion Pwyllgorau

Mae'r Panel wedi cydnabod y gefnogaeth ysgubol iddo fod yn rhagnodol wrth wneud penderfyniadau ac felly mae hefyd wedi dileu'r trefniant o ddwy lefel ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau, er bod y Panel yn parhau o'r farn nad yw poblogaeth yr awdurdod yn effeithio fel rheol ar y cyfrifoldeb a'r swyddogaeth sy'n gysylltiedig â chadeirio pwyllgor.

## 2.5 Lefelau Uwch Gyflogau

Bydd lefelau uwch gyflogau 2018/19 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, felly, yn daladwy fel a ganlyn:

| **Uwch Gyflogau (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):** | | |
|---|---|---|
| **Band 1** | Arweinydd<br>Dirprwy Arweinydd | **£43,300**<br>**£30,300** |
| **Band 2** | Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith | **£26,300** |
| **Band 3** | Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir)<br>Lefel 1 | **£22,300** |
| **Band 4** | Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf* | **£22,300** |
| **Band 5** | Arweinydd grŵp gwrthbleidiol arall* | **£17,300** |
| *** Rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf. Mae'r amod bod rhaid i arweinydd grŵp gwrthbleidiol neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn cymhwyso am uwch gyflog yn aros yr un fath. | | |

## 2.6 Penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig

Mae’r Panel yn parhau o’r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau talu sy’n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb, yn hytrach na phoblogaeth. Mae’r Panel yn ymwybodol ond wedi’i synnu bod llawer o gynghorau wedi pennu cyflogau ar gyfer eu penaethiaid a dirprwyon sy’n cyd-daro â grwpiau poblogaeth yn hytrach na rhai sydd o reidrwydd yn adlewyrchu’r cyfrifoldebau penodol sy’n gysylltiedig â’r rolau. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae’r Panel yn dymuno iddo gael ei nodi nad yw’n ofynnol cymhwyso’r tri grŵp sefydledig o brif gynghorau a gyfrifwyd ar sail poblogaeth mewn perthynas â thaliadau i benaethiaid a dirprwyon dinesig.

Gall cyngor benderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig.

Mae’r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y’u telir) ar y lefelau canlynol yn daladwy ac y byddant yn cael eu cymhwyso gan brif gynghorau yn ôl yr hyn sy’n briodol ym marn bob prif gyngor unigol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwyliedig:

| **Cyflogau Dinesig (sy’n cynnwys y Cyflog Sylfaenol):** | |
|---|---|
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | **1 - £24,300**<br>**2 - £21,800**<br>**3 - £19,300** |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Gadeirydd y Cyngor) | **1 - £18,300**<br>**2 - £16,300**<br>**3 - £14,300** |

Ar gyfer 2017/18, bu i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylid talu cyflogau lefel 3 i’r Pennaeth Dinesig a’r Dirprwy Bennaeth Dinesig.

Bu i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y penderfyniadau uchod ar gyfer 2018/19 yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2018, pryd y penderfynwyd argymell y dylai lefelau’r taliadau barhau fel ag y maent, hy lefel 3 i’r Pennaeth a’r Dirprwy Bennaeth Dinesig.

## 2.7 Y ffactorau allweddol sy’n sail i benderfyniadau’r Panel

Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw’r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychiolaeth gymunedol a chymryd rhan yn y gwaith o graffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod sy’n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

Mae’n rhaid talu’r cyflog a’r costau sydd wedi’u pennu yn llawn i bob aelod, ac eithrio bod unigolyn wedi dewis yn annibynnol a gwirfoddol yn ysgrifenedig i

swyddog priodol yr awdurdod i ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau yn cael eu rhoi dan bwysau i hepgor rhai o'r cyflogau yn cael ei osgoi.

Rhaid gweithredu'r canlynol:

Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un swydd uwch o fewn ei awdurdod ef neu hi.

Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.

Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.

Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill gyda nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.

Ni all aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi ar eu cyfer.

## 3.0 Materion eraill

Fe adroddwyd ar y materion canlynol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 20 Mawrth 2018:

### 3.1 Cefnogi gwaith aelodau etholedig awdurdodau lleol

Mae'r Panel yn disgwyl bod y cymorth a roddir yn ystyried anghenion penodol aelodau unigol. Mae swyddogaethau Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu'r lefel o gymorth a roddir i aelodau i gyflawni'u dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn gynnal adolygiadau a chyflwyno cynigion gerbron y cyngor llawn o ran yr hyn yr ystyrir ei fod yn rhesymol. Dylai unrhyw gynigion gael eu gwneud gan roi sylw dyledus i'w penderfyniadau, hy:

**"Penderfyniad 6:** *Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol*."

**"Penderfyniad 7:** *Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau*."

### 3.2 Ad-dalu Costau Gofal

Diben yr adran hon yw galluogi pobl ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae'r Panel o'r farn na ddylai'r costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal pobl rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl.

I gefnogi aelodau presennol ac i roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r ad-daliad o gostau gofal.

## 4.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

4.1 gadarnhau y dylid talu uwch gyflogau ar gyfer yr 16 swydd canlynol yn ystod 2018/19:

Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7)
Cadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf

4.2 ystyried argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 20 Mawrth 2018 mewn perthynas â lefelau taliadau cyflogau dinesig a chadarnhau lefel y taliad i'r Pennaeth Dinesig a'r Dirprwy Bennaeth Dinesig yn ystod 2018/19.

4.3 awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

**Marc Jones**
**Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog 151**

**8 Mai 2018**

Papur cefndirol:- Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Chwefror 2018)
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/180226-annual-report-2018-cy-v2.pdf

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **15 MAI 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN CYNEFINO A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG EBRILL 2018 - MAWRTH 2019** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **GOFYN I'R CYNGOR GYMERADWYO CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2018/19** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Yn dilyn cyflwyno'r Rhaglen Gynefinio ar gyfer Aelodau newydd llynedd, mae adolygiad o'r cynllun wedi digwydd a chyda trafodaeth gyda'r Tîm Rheoli /Swyddogion CSYM ac Arweinyddion Grwpiau, mae rhaglen diwygiedig wedi ei llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (gweler atodiad 1).

Mae'r rhaglen yn fframwaith amlinellol ar gyfer darparu'r hyfforddiant ac wedi cymeryd i ystyriaeth y meysydd na fu i ni lwyddo i'w cynnal yn ystod 2017/18 oherwydd gwahanol resymau yn ogystal a blaenoriaethau pellach sydd wedi ei hadnabod.

Darperir yr hyfforddiant ar sawl ffurf gan gynnwys gweithdai; mentora; e-ddysgu; hyfforddiant un-i-un ac ati. Os oes modd, cynigir cyfleoedd hyfforddi sy'n gyfuniad o wahanol ddulliau dysgu er mwyn gwella'r broses.

Cyn belled ag y bo modd, ceisir cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig, gan gynnwys eu cyfrifoldebau gofalu personol / trefniadau cyflogaeth eraill. Felly cynigir cymysgedd o sesiynau yn ystod y dydd a chyda'r nos. Pryd bynnag y bo modd, bydd y sesiynau'n cael eu trefnu ar gyfer dyddiau Iau / Gwener, gan osgoi prynhawn dydd Iau cyntaf pob mis (pan gynhelir sesiynau briffio ar gyfer Aelodau).

Bwriedir i'r rhaglen fod yn un sy'n "esblygu" ac sy'n cymryd i ystyriaeth bod blaenoriaethau yn gallu newid e.e. blaenoriaethau'r Awdurdod / Rhanddeilaid Allanol ac ati. Bydd hefyd

yn cymryd anghenion hyfforddiant personol yr Aelodau eu hunain i ystyriaeth. Ystyrir bod Adolygiadau Datblygiad Personol yr Aelodau yn elfen hanfodol o'r broses ddatblygu, gan sicrhau y nodir anghenion hyfforddiant ychwanegol a bod yr anghenion hynny'n cael sylw parhaus.

Mae'n hanfodol ein bod yn deall anghenion Aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well yn eu swyddogaethau trwy ddarparu hyfforddiant datblygu priodol. Trwy fonitro, gwerthuso ac adolygu'r ddarpariaeth yn rheolaidd gellir sicrhau ei bod yn "addas i'r diben" ac o'r ansawdd iawn.

Bydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl allweddol wrth fonitro cynnydd ar sail reolaidd, gan gynnwys adolygu / diweddaru'r rhaglen yn seiliedig ar anghenion yr Aelodau a'r sefydliad. Yn ogystal, cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau, fel y bo'n briodol.

**ARGYMHELLIAD:**

Mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant amgaeedig fel fframwaith ar gyfer datblygu Aelodau yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud unrhyw addasiadau pellach fel sy'n briodol.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu a Hyfforddiant Adnoddau Dynol**
**04 Mai 2018**

| **RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19**<br><br>**(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
| Materion Diogelu | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **05/06/2018** |
| Rhiantu Corfforaethol | Pob Aelod Etholedig | Fôn Roberts – Pennaeth Gwasanaeth Plant | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)". | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadol uchelradd/e-ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Llywodraeth Fodern – recordio hyfforddiant | Pob Aelod Etholedig | Swyddog Mewnol | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Sgiliau Cadeirio (rheolaeth cyfarfodydd) | Pob Cadeirydd | Hwyluswyr allanol/E-Ddysgu | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| **Trwyddedu** - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| **Cynllunio**<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Swyddogion Mewnol | **Dyddiad i'w gadarnhau** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Basson | **05/06/2018** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch** – Arwain yn Ddiogel | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Catrin Love | **Mehefin 2018** |

**MODIWLAU E-DDYSGU AR GAEL**

- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol
- Ysgrifennu Effeithiol
- Rheoli Eich Hun a'ch Amser
- Deallusrwydd Emosiynol
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Atal
- Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Ymwybyddiaeth Straen
- Croeso Cymraeg Gwaith
- Moesau a Safonau
- Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol
- Cadeirio Cyfarfodydd
- Sgiliau Siarad Cyhoeddus
- Cyflwyniad i Graffu
- Y Cynghorydd Ward Effeithiol
- Rhiantu Corfforaethol

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'I cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

**Noder bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**